

CANLLAW I WAITH PRO BONO

CYNGOR CYFREITHIOL DI-DÂL YNG NGHYMURU A LLOEGR

www.nationalprobonocentre.org.uk

[#gwnawnwaithprobono](https://twitter.com/gwnawnwaithprobono)

Rhagair gan Benaethiaid y Proffesiwn

Mae'r tri chorff proffesiynol cyfreithiol (Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar a'r Sefydliad Siartredig Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEx)) yn falch iawn, unwaith eto, o noddi Wythnos Genedlaethol Gwaith Pro Bono a'i Chanllaw swyddogol i waith Pro Bono.

Nid yw gwasanaethau cyfreithiol pro bono yn cymryd lle system cymorth cyfreithiol sydd wedi'i hariannu'n briodol, ac ni allant byth wneud hynny. Fodd bynnag, i'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer y system cyllid cyhoeddus ac na allant dalu am gyngor cyfreithiol, ac i'r elusennau a'r grwpiau cymunedol hynny sydd ag adnoddau prin, yn aml cyngor a chynrychiolaeth di-dâl a ddarperir gan gyfreithwyr yn wirfoddol yw'r unig ddull sydd ganddynt o fynd i faes cyfiawnder i orfodi eu hawlau.

Ar y cyd ac yn wirfoddol, mae gweithwyr proffesiynol cyfreithiol yn gwneud cyfraniad ar ffurf cymorth cyfreithiol di-dâl nad oes ei debyg mewn unrhyw broffesiwn arall.

Gobeithiwn y bydd y canllaw hwn o gymorth ichi, ac y bydd yr wythnos yn eich addysgu ac yn eich ysbrydoli o ran y gwaith y gall gyfreithwyr ei wneud yn eu cymunedau lleol a rhyngwladol i helpu i gefnogi'r rhai nad yw'r arian ganddynt i geisio cyfiawnder.

Robert Bourne, Cymdeithas y Gyfraith

Nodwyd gan:

Cymdeithas y Gyfraith

Cyngor y Bar

Y Sefydliad Siartredig

Gweithredwyr Cyfreithiol

Chantal-Aimée Doerries QC, Cyngor y Bar

Martin Callan, y Sefydliad Siartredig Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEx)

Cynnwys

Tudalen

Diffiniadau

Defnyddio'r llyfryn

Adran 1: Ffynonellau cymorth i unigolion

Cymorth Cyfreithiol

Canolfannau'r Gyfraith

Aelodau Seneddol Lleol

Clinigau LawWorks

IPSEA

Tax Aid

Age UK

Cyngor ar Bopeth

Personal Support Unit (PSU)

Shelter

Adran 2: Ffynonellau cymorth i gynghorwyr

Advice UK

Bar Pro Bono Unit

FRU

Adran 3: Ffynonellau cymorth i elusennau a sefydliadau anllywodraethol

A4ID

ISLP-UK

i-Probono

PILnet

Pure Leapfrog

Trustlaw

Adran 4: Sut i gynorthwyo gyda gwaith pro bono (i gyfreithwyr)

Sut i wirfoddoli

Sut i ddarparu cymorth cyfreithiol

Dolenni defnyddiol

1

2

4

5

6

8

9

10

11

12

13

14

15

16

18

19

20

22

24

25

26

27

28

29

30

32

34

36

Diffiniadau

Pro Bono

Daw "pro bono" o'r ymadrodd Lladin "pro bono publico", sy'n golygu "er budd y cyhoedd". Yn y cyd-destun cyfreithiol, yn gyffredinol mae'n golygu darparu gwasanaethau cyfreithiol yn ddi-dâl i unigolion, elusennau a grwpiau

cymunedol nad ydynt yn gallu fforddio talu am y cyngor neu'r gynrychiolaeth hynny a phan nad yw cyllid cyhoeddus ar gael.

Cymorth Cyfreithiol

Ystyr "cymorth cyfreithiol" yw darparu cymorth i bobl nad ydynt fel arall yn gallu fforddio

cynrychiolaeth gyfreithiol a defnyddio'r system lysoedd. Caiff ei ariannu gan

Lywodraeth y DU, sydd hefyd yn pennu pwy sy'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol.

Yn gyffredinol, darperir cymorth cyfreithiol i unigolion drwy

gwmniau preifat cyfreithwyr a bargyfreithwyr mewn ymarfer preifat.

Cleient

Rhywun sy'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan gyfreithiwr neu

weithiwr proffesiynol cyfreithiol arall.

Bargyfreithiwr

Cyfreithiwr a reoleiddir gan Fwrdd Safonau'r Bar, ac sydd, yn aml,

yn arbenigo mewn cynrychiolaeth yn y llys, llunio plediadau, a safbwyntiau

cyfreithiol arbenigol.

Gweithredwr Cyfreithiol Siartredig

Cyfreithiwr a reoleiddir gan CILEx.

Cyfreithiwr [*Solicitor*]

Cyfreithiwr sydd wedi'i dderbyn yn gyfreithiwr gan yr Awdurdod Rheoleiddio

Cyfreithwyr (SRA) ac y mae ei enw'n ymddangos ar y gofrestr o gyfreithwyr.

1

Defnyddio'r llawlyfr hwn

I unigolion

Diben yr adran hon yw cynorthwyo unigolion sy'n chwilio am gymorth

cyfreithiol pro bono ar gyfer eu hachos eu hunain.

I gyfreithwyr

Os nad yw unigolion yn gallu fforddio cyfreithiwr preifat, dylent ganfod yn

gyntaf a ydynt yn gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol. Os nad ydynt, gallant

droi at un o Ganolfannau'r Gyfraith, os oes un yn eu hardal, neu gysylltu â'u

canolfan Cyngor ar Bopeth leol.

I gynghorwyr

Diben yr adran hon yw cynorthwyo cynghorwyr sy'n chwilio am gymorth

cyfreithiol pro bono i'w cleientiaid.

Dim ond drwy atgyfeiriad y gellir defnyddio'r gwasanaethau hyn. Ni all

unigolion gael cymorth pro bono gan y sefydliadau hyn heb

atgyfeiriad gan gorff atgyfeirio cysylltiedig (er enghraifft, Canolfan y Gyfraith)

Dylai cynghorwyr gofio bod cyfreithwyr yn gwneud gwaith pro bono yn

wirfoddol, a bod y graddau y mae cymorth pro bono ar gael yn amrywio

ar draws y wlad yn ôl y nifer sydd ar gael, yr arbenigedd, a'r capasiti ym

mhob ardal.

I elusennau

Diben yr adran hon yw cynorthwyo elusennau, sefydliadau anllywodraethol, a

grwpiau Cymunedol y mae angen cyngor cyfreithiol arnynt.

Mae llawer o gyfreithwyr yn darparu cymorth pro bono i elusennau, sefydliadau

anllywodraethol, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol y mae angen cymorth

cyfreithiol arnynt ac nad ydynt yn gallu fforddio talu cyfreithiwr. Yn aml, gwneir hyn mewn modd

ad hoc pan fo gan gyfreithiwr berthynas benodol ag elusen neu grŵp.

Mae yna enghreifftiau o ffyrdd y gall cyfreithwyr gymryd rhan. Hoffem bwysleisio eto

nod yw gwasanaethau cyfreithiol pro bono yn cymryd lle system cymorth cyfreithiol

sydd wedi'i hariannu'n briodol, ac ni allant byth wneud hynny. Mae'r cyfrif proffesiynol

yn parhau i gynorthwyo cyfreithwyr drwy lobio ynglŷn â'r pwynt hwnnw.

Diben yr adran hon yw cynorthwyo cyfreithwyr sy'n ystyried gwneud gwaith pro

bono.

Mae nifer o sefydliadau hefyd sy'n helpu i "frocera" y perthnasoedd

hyn.

Diben yr adran hon yw cynorthwyo unigolion nad ydynt yn gallu fforddio cyfreithiwr preifat ond nad ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol

1

I UNIGOLION

Cymorth Cyfreithiol

Os oes angen cymorth arnoch i dalu am gyngor cyfreithiol, efallai y byddwch yn gallu cael cymorth cyfreithiol. Ystyr 'cymorth cyfreithiol' yw cymorth cyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus, ac sydd ar gael drwy'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

Mae cwmpas cymorth cyfreithiol wedi'i leihau dros y blynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, mae ar gael o hyd i achosion sifil a throseddol penodol.

Ble galla i gael cymorth?

Mae cymorth cyfreithiol yn dibynnu ar eich sefyllfa ariannol, maes y gyfraith y mae arnoch angen cymorth yn ei gylch, a chryfder eich achos. Gan fod y system cymorth cyfreithiol yn gymhleth ac yn newid drwy'r amser, dylech bob amser siarad â chynghorwr yn gyntaf. Gallwch ganfod rhagor yn:

- www.lawsociety.org.uk/legalaid
- www.gov.uk/legal-aid
- 0845 345 4345

Canolfannau'r Gyfraith

Rhwydwaith o fwy na phedwar deg o bractisiau cyfreithiol di-elw yw Canolfannau'r Gyfraith. Mae pob Canolfan y Gyfraith yn elusen annibynnol sydd â maes gwasanaeth penodol. Mae Canolfannau'r Gyfraith yn helpu pobl sy'n byw mewn tloedi neu sydd o dan anfantais arall ac nad ydynt yn gallu fforddio talu am wasanaethau cyfreithiol masnachol traddodiadol. Maent yn darparu cyngor a chynrychiolaeth cyfreithiol ym maes cyfraith lles cymdeithasol. Bydd y gwasanaethau lleol a meysydd y gyfraith a gynigir yn amrywio ymysg Canolfannau'r Gyfraith gan ddbynnu ar y cyllid sydd ar gael, ac mae Canolfannau'r Gyfraith yn cynnig cymorth cyfreithiol pan fo ar gael. Dyma fanylion cyswllt canolog Canolfannau'r Gyfraith:

- www.lawcentres.org.uk
- info@lawcentres.org.uk

6
7

Eich Aelod Seneddol Lleol

Mae mwyafrif yr Aelodau Seneddol yn cynnig amseroedd pan fônt ar gael mewn gwahanol fannau yn eu hetholaeth i'r etholwyr gwrdd â nhw i drafod problemau. Yn aml, gelwir y sesiynau hyn yn gymorthfeydd ac fel rheol caiff y manylion eu hysbysebu mewn papurau lleol ac ar wefan eich AS. Bydd ysgrifennydd eich AS hefyd yn gallu rhoi gwybod ichi pryd y bydd eich AS yn cynnal cymhorthfa nesaf.

LawWorks

Elusen genedlaethol gofrestredig yw LawWorks (sef enw gweithredol Grŵp Pro Bono y Cyfreithwyr / Solicitors Pro Bono Group), sy'n cysylltu pobl y mae angen cyngor a chymorth cyfreithiol arnynt, a'r sefydliadau di-elw sy'n eu cynorthwyo, â sgiliau ac arbenigedd cyfreithwyr sy'n barod i ddiwallu'r anghenion hynny'n ddi-dâl.

Cymorth

Gallwch ganfod sut i gysylltu â'ch Aelod Seneddol yma:

- www.theyworkforyou.com/mp/

Rhwydwaith cenedlaethol o glinigau cyngor cyfreithiol di-dâl y mae LawWorks yn ei gynorthwyo yw Rhwydwaith Clinigau LawWorks. Mae'r clinigau'n darparu cyngor di-dâl i unigolion ynghylch meysydd amrywiol o'r gyfraith. Darperir y cyngor wyneb yn wyneb, dros y ffôn, ac, mewn rhai achosion, drwy Skype a thrwy alw i mewn neu wneud apwyntiad.

Llwybr ymgeisio

I drefnu ymgynghoriad mewn clinig cyngor, ewch i wefan LawWorks i chwilio am eich clinig lleol:

- www.lawworks.org.uk/clinics

8
9

Cyngor Addysg Arbennig Annibynnol i Rieni (IPSEA)

Elusen genedlaethol gofrestredig yw IPSEA sy'n helpu plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau i gael y cymorth yn yr ysgol y mae ganddynt hawl gyfreithiol iddo. Rydym yn rhedeg llinellau cymorth sy'n darparu cyngor dros y ffôn i rieni a phobl ifanc ac yn darparu cymorth i deuluoedd sy'n mynd i dribiwnlys.

Cymorth

Plant a phobl ifanc sydd â phob math o anghenion addysgol arbennig ac

maabledau ac sydd mewn trallod ac o dan anfantais oherwydd nad ydynt yn cael y cymorth addysgol y mae ganddynt hawl gyfreithiol iddo.

TaxAid a Tax Help for Older People

Cymorth

Mae TaxAid yn cwmpasu pobl o oedran gweithio, gan gynnwys trethi busnes, trethi unigolion, a dyledion trethi.

Mae Tax Help for Older People yn canolbwyntio ar bob agwedd ar drethi i'r rhai sy'n agos at 60 oed neu'n hŷn a'r rhai sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy elusen yn cwmpasu pob mater sy'n ymwneud â threthi a bydd y naill yn atgyfeirio achos at y llall os bydd hynny'n creu budd i'r cleient.

Ni chwmpasir

Cynrychiolaeth mewn Tribiwnlys neu Lys.

Llwybr ymgeisio

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan ipsea neu defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

- www.ipsea.org.uk
- hwatson@ipsea.net
- 01799 582 030

Budd-daliadau nawdd cymdeithasol.

Cyfrifoldebau parhaol yn asiant trethi; rydym yn anelu at ddatrys problemau uniongyrchol ein cleientiaid a'u galluogi i ofalu amdanynt eu hunain yn y dyfodol.

Llwybr ymgeisio

Tax Help for Older People

TaxAid

- www.taxaid.org.uk
- mail@taxaid.org.uk
- 03451 203 779
- www.taxvol.org.uk
- taxvol@taxvol.org.uk
- 0845 601 3321

10

11

Cyngor gan Age UK

Mae gan Age UK weledigaeth o fyd lle y mae pobl hŷn yn ffynnu. Rydym yn darparu cyngor ar ystod o faterion, gan gynnwys iechyd a gofal, tai, gwaith a dysgu, arian a budd-daliadau, lles, y cartref a'r gymuned.

Cymorth

- Gwasanaeth gwybodaeth a chyngor dros y ffôn
- Gwasanaethau gwaith achos ac wyneb yn wyneb
- Canllawiau a Thafenni Ffeithiau ynghylch ystod eang o bynciau.

Llwybr ymgeisio

- Ffôn-wch ein llinell Gwybodaeth a Chyngor: 0800 169 6565, ar agor 8am i 7pm bob diwrnod o'r flwyddyn
- Pan fyddwn yn gallu helpu, byddwch yn cael eich trosglwyddo i gynghorwr arbenigol neu'n cael eich cyfeirio at eich cangen Age UK leol.

- www.ageuk.org.uk
- 0800 169 6565

Cyngor ar Bopeth

Mae Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor di-dâl, annibynnol, cyfrinachol a diduedd i bawb ynglŷn â'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Rydym yn darparu cyngor wyneb yn wyneb o 2,500 o leoliadau Cyngor ar Bopeth lleol ledled Cymru a Lloegr, yn ogystal â dros y ffôn, drwy sgyrsiau gwe, drwy'r post, drwy e-bost ac ar ein gwefan hunan-gymorth.

Gellir dod o hyd i gyngor ar-lein drwy fynd i:

- www.citizensadvice.org.uk

Mae rhagor o wybodaeth am y ffyrdd yr ydym yn darparu cyngor, gan gynnwys sut i ddod o hyd i'ch cangen Cyngor ar Bopeth leol, ar gael yn:

- www.citizensadvice.org.uk/about-us/how-we-provide-advice/

12

13

Personal Support Unit (PSU)

Mae PSU yn helpu ymgyfreithwyr sy'n dwyn achos drostynt eu hunain, a'u cyfeillion a'u teuluoedd, tystion, dioddefwyr, a phobl nad ydynt â phrofiad o ddefnyddio llysoedd.

Cymorth

- Cymorth ymarferol ac emosiynol i bobl nad oes ganddynt gynrychiolaeth mewn trafodion sifil a theuluol mewn llysoedd a swyddfeydd llysoedd
- Cymorth gyda threfnu papurau, llenwi ffurflenni, paratoi ar gyfer y llys, ac yn y blaen
- Mynd i'r llys gyda'r ymgyfreithwyr sy'n dwyn achos drostynt eu hunain
- Dangos sut i gael gafael ar ddarparwyr, asiantaethau ac adnoddau ar-lein perthnasol.

Ni chwmpasir

Cyngor neu gynrychiolaeth cyfreithiol.

Llwybr ymgeisio

- Fel rheol, gellir gweld rhywun ar unwaith yn y swyddfeydd, yn ogystal â threfnu apwyntiadau o flaen llaw dros y ffôn neu drwy e-bost.

Ewch i'r wefan i gael manylion cyswllt swyddfeydd PSU mewn llysoedd:

- www.thepsu.org.uk

Shelter

Mae Shelter yn helpu pobl sy'n cael trafferth o ran tai gwael neu ddigartrefedd drwy gynnig gwasanaethau cyngor a chymorth, a gwasanaethau cyfreithiol.

Mae Shelter yn cynnig cyngor ar faterion tai i bawb. Gall helpu pobl

i weithredu, gan gynnwys os ydynt:

- yn byw mewn tai sydd mewn cyflwr gwael neu sydd â gormod o bobl yn byw ynddynt

- yn ddigartref, neu'n pryderu y gallent fod yn ddigartref yn fuan
- â phroblemau o ran eu landlord (preifat neu gymdeithasol)
- yn wynebu cael eu troi allan neu broses adfeddiannu
- yn cael anhawster o ran talu eu rhent neu forgais
- yn cael problemau gyda chymdogion
- yn ansicr ynglŷn â'u hawliau o ran tai
- yn ansicr ynglŷn â'r budd-daliadau y maent â hawl iddynt.
- yn cael trafferth o ran dyledion neu fethdaliad.

Llwybr ymgeisio

Mae llinell gymorth genedlaethol ddi-dâl Shelter ar agor drwy'r flwyddyn ac mae'n cynnig cyngor arbenigol ar faterion tai. Mae'r wefan yn cynnig cyngor ar faterion tai ynghyd ag awgrymiadau ymarferol. Caiff cwestiynau unigol eu hateb drwy'r ffurflen e-byst ar y wefan.

- www.shelter.org.uk/advice
- 0808 800 4444

14

15

Diben yr adran hon
yw cynorthwyo cynghorwyr
sy'n chwilio am gymorth
cyfreithiol pro bono i'w
cleientiaid

2

I GYNGHORWYR

Advice UK

AdviceUK yw'r corff ambarél i 800 o sefydliadau cyngor cymunedol annibynnol ledled Cymru, yr Alban, a Lloegr.

Mae gan AdviceUK aelodau amrywiol ac maent yn gwasanaethu grwpiau poblogaeth ar draws y sbectrwm. Mae dros 250 ohonynt â ffocws o ran Pobl Dduon, Lleiafrifoedd Ethnig, a Ffoaduriaid, ac mae llawer o aelodau eraill yn gweithio gyda phobl anabl, mudwyr, menywod, pobl ifanc, pobl hŷn, neu grwpiau penodol fel tenantiaid cymdeithasau tai neu fyfyrwyr.

Cymorth i aelodau AdviceUK

- Datblygiad sefydliadol a chymorth gyda chyllid
- Dysgu a Sgiliau (datblygu staff)
- Yswiriant
- Dylanwadu, a llais o ran polisiau.

Llwybr ymgeisio

- www.adviceuk.org.uk
- mail@adviceuk.org.uk

Bar Pro Bono Unit (BPBU)

Mae BPBU yn darparu bargyfreithwyr ledled Cymru a Lloegr i bobl nad ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol ac nad ydynt yn gallu fforddio talu. Caiff achosion eu paru â bargyfreithwyr cymwysedig o banel BPBU.

Cymorth

- Cyngor, gwaith drafftio, a chynrychiolaeth cyfreithiol arbenigol
- Cyngor gyda chyfryngu
- Pob maes o'r gyfraith, a phob llys a thribiwnlys
- Gweithredwyr Cyfreithiol Siartredig i gynorthwyo bargyfreithwyr sy'n gweithredu ar sail pro bono.

Llwybr ymgeisio

- Rhaid i unigolion gael eu hatgyfeirio gan Aelod Seneddol, cyfreithiwr, neu asiantaeth gyngor gan ddefnyddio ffurflen gais sydd ar gael ar-lein
- Rhaid cyflwyno ceisiadau o leiaf 3 wythnos cyn y bydd angen cymorth
- Gall elusennau, grwpiau cymunedol, cwmnïau a sefydliadau eraill ymgeisio drwy ddefnyddio'r ffurflen gais sydd ar gael ar y wefan.
- www.barprobono.org.uk
- 020 7092 3960.

Free Representation Unit (FRU)

Mae FRU yn cynrychioli cleientiaid mewn tribiwnlysoedd nawdd cymdeithasol a chyflogaeth. Mae'r achosion yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr, sef myfyrwyr y gyfraith gan mwyaf, o dan oruchwyliaeth staff FRU.

Cymorth

Cynrychiolaeth mewn tribiwnlysoedd a thrafodaethau ynghylch datrys cyn gwrandawiad yn y meysydd a ganlyn:

- Cyflogaeth
- Budd-daliadau nawdd cymdeithasol
- Iawndal anafiadau troseddol.

Ni chwmpasir

- Achosion na phennwyd dyddiad gwrandawiad iddynt
- Lleoliadau tribiwnlysoedd y tu allan i Lundain a De Ddwyrain Lloegr neu Nottingham a'r ardal amgylchynol.

Llwybr ymgeisio

- Rhaid i fwyafrif yr achosion gael eu hatgyfeirio gan un o'n hasiantaethau partner. Gall gwrandawladau byr mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth (gwrandawladau terfynol nad ydynt yn para mwy na deuddydd) gael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol gan hawlwr gan ddefnyddio'r cynllun hunanatgyfeirio, a eglurir yn llawn ar ein gwefan.
- www.thefru.org.uk
- 020 7611 9555

Diben yr adran hon yw
cynorthwyo elusennau, sefydliadau
anllywodraethol a grwpiau
Cymunedol y mae angen cyngor
cyfreithiol arnynt

3

23

I ELUSENNAU

Advocates for International Development (A4ID)

Mae A4ID yn galluogi sefydliadau i gael gwasanaethau pro bono drwy ei bartneriaethau â chwmnïau cyfreithiol, timau cyfreithiol mewnol a siambrau bargyfreithwyr. Mae A4ID yn cynnig hyfforddiant a digwyddiadau yng nghyswllt y gyfraith a datblygiad rhyngwladol i gyfreithwyr a myfyrwyr y gyfraith.

Cymorth

Prosiect Uwch-gyfreithwyr Rhyngwladol y DU (ISLP-UK)

Mae ISLP-UK yn meithrin datblygiad cyfiawn ac atebol sy'n gynaliadwy, sy'n ategu hawliau dynol, ac sy'n cryfhau rheolaeth y gyfraith. Mae ein rhwydwaith unigryw o gyfreithwyr pro bono medrus a phrofiadol yn cynghori'r gymdeithas sifil a llywodraethau mewn gwledydd llai datblygedig.

Mae ein gwaith mewn tua 80 o wledydd yn canolbwyntio ar:

- Sefydliadau Anllywodraethol, Sefydliadau Rhynglywodraethol, llywodraethau gwledydd sy'n datblygu, a mentrau cymdeithasol.
- Cyngor a chymorth i sefydliadau sy'n gweithio tuag at ddileu tlodi byd-eang neu ar ddatblygiad cynaliadwy mewn unrhyw ran o'r byd.
- Pob maes o'r gyfraith - o anghenion cyfreithiol masnachol, i waith ymchwil cyfreithiol, eiriolaeth, a hyfforddiant.
- twf economaidd tecach a mwy cynhwysol
- dull gwell o lywodraethu yng nghyswllt adnoddau'r wladwriaeth
- buddsoddiadau corfforaethol mwy cyfrifol a chynaliadwy
- gwella tryloywder a'r gallu i gael gafael ar wybodaeth
- mwy o gyfranogaeth gan y gymuned mewn penderfyniadau ar ddatblygu
- dulliau gwell o ddiogelu manau'r gymdeithas sifil a'r rhyddid i fynegi.

Llwybr ymgeisio

Llwybr ymgeisio

- shazledine@islp.org
- www.a4id.org
- info@a4id.org
- 020 7250 8363
- www.islp.org

24

25

iProbono

Mae iProbono wedi adeiladu rhwydwaith o fwy na 50,000 o gyfreithwyr a 1,200 o sefydliadau, ac mae mwy na 630 o brosiectau wedi'u cwblhau mewn 29 o wledydd.

Rydym yn darparu cymorth drwy'r broses gyfan - gan weithio gyda sefydliadau i ganfod eu hanghenion, ymchwilio i brosiectau, a dod â thim o bobl at ei gilydd i gyflymu eu gwaith.

PILnet

Mae PILnet yn helpu elusennau a sefydliadau anllywodraethol i gael gafael ar gymorth cyfreithiol di-dâl. O'n chwe swyddfa o amgylch y byd, rydym ynparu sefydliadau anllywodraethol y mae angen cymorth cyfreithiol arnynt â chyfreithwyr arbenigol sy'n barod i roi o'u hamser a chyfrannu eu sgiliau.

Cymorth

- Elusennau, sefydliadau anllywodraethol, sefydliadau di-elw, mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol

Cymorth

Rydym yn gweithio gyda phob sefydliad cymdeithas sifil a menter gymdeithasol (di-elw).

Ni chwmpasir

- Gwaith ymchwil, cyngor, hyfforddiant a chynrychiolaeth cyfreithiol lleol a rhyngwladol

- Pob maes o'r gyfraith, gan gynnwys cyfogaeth, contractau, trethi, hawliau dynol, cydraddoldeb a'r gyfraith gyhoeddus.

Ni chwmpasir

Mae iProbono wedi'i sefydlu i gynorthwyo sefydliadau'r gymdeithas sifil yng nghyswllt materion sy'n ategu budd y cyhoedd. Yn anffodus, ni allwn ymgymryd â materion preifat i aelodau'r cyhoedd.

Llwybr ymgeisio

Llwybr ymgeisio

Bydd pob partner newydd sy'n sefydlid anllywodraethol ac sy'n ceisio cymorth pro bono yn mynd drwy broses sgrinio gychwynnol ac yna'n cael ymgynghoriad ynghylch y gwaith pro bono sydd ei angen arno.

- www.i-probono.com
 - contact@i-probono.com
- Cysylltwch â Marieanne McKeown, Rheolwr PILnet ar gyfer Ewrop:
- www.pilnet.org
 - mmckeown@pilnet.org
 - 020 7092 3976
 - Cleientiaid unigol.

26

27

Pure Leapfrog

Mae Pure Leapfrog yn darparu buddsoddiadau cymdeithasol a chymorth proffesiynol i brosiectau ynni cymunedol yn y DU. Ein

bnhadaeth yw rhoi cyfle i bob cymuned yn y DU fod yn berchen ar bŵer glân a gwyrdd a'i gynhyrchu, a chydweithio i leihau'r galw am ynni drwy sicrhau bod cyllid yn hygyrch ac yn fforddiadwy.

TrustLaw

TrustLaw yw rhaglen gyfreithiol pro bono fyd-eang Sefydliad Thomson Reuters. Mae'n cysylltu cyfreithwyr o bob rhan o'r byd â sefydliadau anllywodraethol a mentrau cymdeithasol, er mwyn darparu cymorth cyfreithiol di-dâl i helpu sefydliadau i gael mwy o effaith ac i weithredu'n fwy effeithiol.

Gall sefydliadau anllywodraethol, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cyfreithiol a thimau cyfreithiol corfforaethol mewnl dddod yn aelodau o TrustLaw.

Rydym yn cyflwyno arbenigedd proffesiynol fforddiadwy a gwerthfawr i grwpiau ynni cymunedol, a ddarperir drwy ein rhwydwaith o gyfreithwyr, cyfrifyddion a darparwyr gwasanaethau proffesiynol eraill.

Cymorth

• Cyllid fforddiadwy i brosiectau ynni cymunedol a leolir yn y DU.

• Prosiectau lleihau carbon a leolir yn y DU.

• Cyngor proffesiynol amlddisgyblaethol: materion cyfreithiol, cyfrifyddiaeth, cyfathrebu ym myd busnes, peirianeg amgylcheddol ac ymgynghori.

Llwybr ymgeisio:

Drwy e-bost. Mae holl fanylion y meini prawf cymhwysedd

ar gael ar ein gwefan.

Cymorth

Gall aelodau TrustLaw gyflwyno ceisiadau am gymorth cyfreithiol pro bono. Bydd TrustLaw yn eu cysylltu â chwmmnïau cyfreithiol sy'n gallu darparu gwaith ymchwil cyfreithiol; gwaith llunio cytundebau cyflogaeth a gwirfoddoli; cyngor ar faterion strwythuro corfforaethol; cytundebau partneriaeth neu gyllido; a chymorth gydag eiddo deallusol.

Llwybr ymgeisio

Gall mentrau cymdeithasol, sefydliadau anllywodraethol, a chwmmnïau

cyfreithiol gyflwyno ceisiadau aelodaeth drwy apply.trust.org

• www.pureleapfrog.org

• info@pureleapfrog.org

• 020 7407 6979

• www.trust.org/trustlaw

• trustlaw@thomsonreuters.com

28

29

**Mae'r adran hon ar gyfer
cyfreithwyr sy'n ystyried
gwneud gwaith pro bono
neu ei gefnogi**

4

31

I GYFREITHWYR

SUT I WIRFODDOLI

Dyma rai ffyrdd y gallwch gymryd rhan:

Gwirfoddoli mewn canolfan Cyngor ar Bopeth neu Ganolfan y Gyfraith

Mae Cyngor ar Bopeth a Chanolfannau'r Gyfraith yn dibynnu

ar wirfoddolwyr pro bono i ategu gwaith y staff

a gyflogir.

www.citizensadvice.org.uk/about-us/support-us/volunteering/

www.lawcentres.org.uk/our-work/volunteer-with-us

I Fargyfreithwyr:

Cofrestrwch i wirfoddoli gyda Bar Pro Bono Unit, oherwydd, heb

gymorth y Bar, ni allai fodoli. Mae gan yr Uned achosion ym mhob

maes o'r gyfraith, sy'n addas i ddisgyblion 'yr ail chwech' hyd at sidanwyr.

P'un a allwch gynnig cyngor, gwaith drafftio, neu

gynrychiolaeth, bydd eich cymorth yn hynod werthfawr i'w

hymgeiswyr.

I Weithredwyr Cyfreithiol Siartredig:

Gall aelodau CILEx gymryd rhan mewn gwaith pro bono hyd yn oed

os nad oes gan eu cwmni raglen pro bono.

I Gyfreithwyr:

Canfyddwch a oes gan eich cwmni chi raglen pro bono. Os nad oes

ganddo raglen o'r fath, sefydlwch un! Mae gan Gymdeithas y Gyfraith nifer o

adnoddau i helpu cwmnïau cyfreithiol a thimau mewnl i gynllunio,

datblygu neu gynnal rhaglen pro bono. I gael rhagor o wybodaeth,

gweler Llawlyfr Pro Bono Cymdeithas y Gyfraith a/neu

Developing a Pro Bono Programme: Guidance and Toolkit. Gall

cwmnïau a thimau mewnl hefyd ddod yn llofnodwyr ar Siarter Pro

Bono Cymdeithas y Gyfraith. Ymrwymiad cyhoeddus gan y gymuned

gyfreithiol i hyrwyddo cyfleoedd pro bono ym mhob rhan o'u busnes yw'r Siarter,

ac mae'n dangos cefnogaeth i'r egwyddor o gael mynediad at gyfiawnder.

Yn olaf, gall cwmnïau a thimau mewnl hefyd ddod yn aelodau o Law Works

(*The Solicitors' Pro Bono Group*) a manteisio ar amryw o gyfleoedd i

wirfoddoli.

Dylai aelodau CILEx fynd i wefan Ymddiriedolaeth Pro Bono CILEx

lle y tynnir sylw at gyfleoedd i wirfoddoli i wneud gwaith pro bono

ymghyd â gwybodaeth am brosiectau pro bono penodol CILEx.
Gall cyfreithwyr, bargyfreithwyr ac aelodau CILEx gweithredol oll wirfoddoli gyda FRU. Gellir hepgor rhai o'r gofynion o ran hyfforddiant, neu'r cyfan ohonynt, os oes gan gyfreithwyr brofiad priodol.
I gael rhagor o wybodaeth, a chael gwybod am ddeisiadau eraill o ran gwaith pro bono, ewch i:

• www.nationalprobonocentre.org.uk/for-lawyers

SUT I DDARPARU CYMORTH ARIANNOL

Nid yw mentrau pro bono yn dibynnu ar haelioni cyfreithwyr o ran eu hamser yn unig, ond ar gyfraniadau ariannol hefyd. Mae rhai ffyrdd pwysig o ddarparu cymorth ariannol wedi'u rhestru isod.

1. Rhoddion unigol

Gellir cyflwyno rhoddion yn annibynnol neu drwy gynllun rhoddion.

Ers 2013, mae Cyngor y Bar wedi galluogi bargyfreithwyr sy'n adnewyddu eu tystysgrifau ymarfer i roi £30 i Bar Pro Bono Unit.

2. Cynlluniau corfforaethol

Gall corfforaethau ddod yn rhan o aelodaeth pro bono a gall cwmnïau

cyfreithiol gyfrannu o'u sefydliad elusennol yn uniongyrchol. Mae cynllun "*Friends in Law*" yn cydnabod siambrau sy'n cyfrannu at Bar Pro Bono Unit a'r FRU.

3. Digwyddiadau

Mae'r Ymddiriedolaethau Cymorth Cyfreithiol, sef rhwydwaith o saith

elusen sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr, yn trefnu digwyddiadau codi arian

fel y teithiau cerdded cyfreithiol. Ymysg y cyfleoedd eraill i godi arian mae'r

Gystadleuaeth Bobi Fawr i Gyfreithwyr a'r Cwis Cyfreithiol Mawr.

4. Costau pro bono

Caiff costau pro bono eu dyfarnu yn yr un ffyrdd ag y caiff costau arferol, ond

span gafodd y cleient gynrychiolaeth gyfreithiol ddi-dâl. Caiff y cronfeydd

hyn eu dosbarthu'n strategol drwy sefydliad Access to Justice i gefnogi

cymorth pro bono pellach.

5. Arian o gyfrifon segur cleientiaid

Gall balansau cyfrifon cleientiaid nad ydynt wedi'u hawlio gael eu rhoi i

elusennau. Mae Sefydliad Access to Justice yn rhedeg cynllun i annog

cwmnïau cyfreithiol i gyfrannu'r symiau hyn i ategu gwaith pro bono

ac mae'n darparu indemniad ar gyfer rhoddion sy'n fwy na £500 fel sy'n

ofynnol gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA).

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.atjf.org.uk

DOLENNI DEFNYDDIOL

AdviceUK

Advocates for International

Development

AgeUK

Bar Pro Bono Unit

Ymddiriedolaeth Pro Bono CILEx

Cyngor ar Bopeth

Free Representation Unit

I-Probono

IPSEA

Prosiect Uwch-gyfreithwyr Rhyngwladol (ISLP)

Rhwydwaith Canolfannau'r Gyfraith

LawWorks

Cymorth Cyfreithiol

Aelodau Seneddol

Y Ganolfan Pro Bono Genedlaethol

Personal Support Unit

PILnet

PureLeapfrog

Shelter

Trethi

TrustLaw

www.adviceuk.org.uk

www.a4id.org

www.ageuk.org.uk

www.barprobono.org.uk

www.cilexpbt.org.uk

www.citizensadvice.org.uk

www.thefru.org.uk

www.i-probono.com

www.ipsea.org.uk

www.islp.org

www.lawcentres.org.uk

www.lawworks.org.uk

www.gov.uk/civil-legal-advice

www.theyworkforyou.com/mp

www.nationalprobonocentre.org.uk

www.thepsu.org

www.pilnet.org

www.pureleapfrog.org

www.shelter.org.uk/advice

www.taxaid.org.uk

www.taxvol.org.uk

www.trustlaw.trust.org

Nodiadau

WYTHNOS PRO

BONO 2016

MAE'N RHAN

O FOD YN

GYFREITHIWR

Cenedlaethol

#gwnawnwaithprobono

7–11 Tach

Rhagor o wybodaeth